
Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Bwlch Drws Ardudwy, Trawsfynydd

CYMEDROL




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 7km (4.4 milltir)
- Hyd: 2 awr
- Math o daith: Cylchdaith

### ⚠ Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru

V-20231106/2116




Dechreuwch ar eich taith drwy ddilyn yr arwydd i’r dde allan o’r maes parcio ar hyd y ffordd raean.




Ar ôl 200m, ewch i’r chwith ar y gyffordd gyntaf.





Byddwch yn ymwybodol o’r anifeiliaid wrth fynd heibio Graigddu Isaf ar eich dde. Parhewch i’r chwith o’r ffermdy a chroesi’r bont yn syth o’ch blaen.




Yn fuan, mi welwch arwydd ar eich dde tuag at Bwlch Tyddiad. Parhewch i ddilyn llwybr Bwlch Drws Ardudwy.





Ar ôl 200m, dilynwch y llwybr i’r dde gan fynd heibio’r giât bar metel.




Ymhen ychydig, fe gyrhaeddwch droad ar eich dde. Ewch yn syth heibio’r troad hwn.




Parhewch ar y trac am oddeutu 1km.




Ar y groesffordd nesaf, ewch i’r chwith gan ddilyn yr arwydd am Bwlch Drws Ardudwy.




Ar ôl 200m, trowch i’r dde gan ddilyn yr arwydd am Bwlch Drws Ardudwy.

**10**



Parhewch ar hyd y llwybr am oddeutu 350m.

**11**



Ewch trwy'r giât i Warchodfa Natur Genedlaethol y Rhinogydd. Mae'r dirwedd yn fwy garw ac yn wlypach dan draed yn fan hyn.

**12**



Ar ôl tua 600m, trowch i'r dde tua 50m o'r wal gerrig.

**13**



Parhewch i fyny'r bwlch yn y gefnen.

**14**



Ar ben yr allt, dilynwch y llwybr i lawr ac ar ôl tua 750m, ewch drwy'r giât fetel fechan.

**15**



Dilynwch y llwybr ar hyd ymyl y blanhigfa cyn cyrraedd giât fechan. Ewch drwy'r giât a dilyn y llwybr i'ch chwith.

**16**



Parhewch ar hyd y llwybr drwy'r blanhigfa am 500m nes dowch chi at gyffordd. Trowch i'r chwith i ddilyn trac llydan.

**17**



Yn fuan, mi ddowch ar draws cyffordd arall. Cymerwch y troad i'r dde a cherdded y llwybr ar i lawr sy'n dilyn yr afon.

**18**



Ar ôl 500m, byddwch yn mynd heibio rhaeadr fechan ar eich chwith (Pistyll Gwyn). Ar ôl 500m pellach, mi gyrhaeddwch gyffordd-T. Trowch i'r chwith a dilyn y llwybr yn ôl i'r maes parcio.